

Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

Clerc / Clerk Gwenda Owen
 Cyfeiriad/Address: Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ
 Ffon/Tel:01407 740046
 Ebost/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com
 Wefan: <http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru>
 Website: <http://www.valley-community-council.wales>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council's Meeting

15.12.21 7.00 yh/pm

Cyfarfod o Bell/Remote Meeting ZOOM

Linc i ymuno a chyfarfod Zoom/Link to Join Zoom Meeting

<https://us02web.zoom.us/j/82728237580?pwd=dG1OWUVwVFhzRUE0bGNUNXhOR3JtZz09>

Nodir os gwellwch yn dda - Bydd Zoom ar gael i aelodau Cyngor Cymuned y Fali am 6.45 pm pan fydd disgyblion Ysgol Gymunedol y Fali yn rhoi cyflwyniad ar eu Prosiect Gwella Ardaloedd Lleol. Felly, bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu derbyn i'r cyfarfod am 7.00 p.m.

Please Note: Zoom will be available to Valley Community Council members at 6.45 pm when pupils of Valley Community School will give a presentation on their Local Area Improvement Project. Members of the public will therefore be admitted to the meeting at 7.00 p.m.

1	<p>Croeso</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd staff a disgyblion Ysgol Gymunedol y Fali i wneud cyflwyniad rhithiol i aelodau ar eu Prosiect Gwella Ardaloedd Lleol.</p> <p>Rhoddodd y disgyblion gyflwyniad pleserus ac addysgiadol, gan dynnu sylw at eu parch a'u pryderon am eu cymuned.</p> <p>Ar ddiwedd y cyflwyniad gwahodddwyd yr aelodau i drafod materion a godwyd gan y disgyblion.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r disgyblion am eu cyflwyniad a'u sicrhau y byddai'r Cyngor Cymuned yn llwyr gefnogi eu hymdrechion i wella eu hardal leol lle bynnag y bo modd.</p>	<p>Welcome</p> <p>The Chairman welcomed both staff and pupils of Valley Community School to make a virtual presentation to members on their Local Area Improvement Project.</p> <p>The pupils gave an enjoyable and informative presentation, highlighting both their respect and their concerns for their community.</p> <p>At the end of the presentation members were invited to discuss matters raised by the pupils.</p> <p>The Chairman thanked the pupils for their presentation and assured them that the Community Council would fully support their efforts to improve their local area wherever possible.</p>
2	<p>Presennol</p> <p>Cynghorwyr:</p> <p>N Tuck (Cadeirydd)</p> <p>K Taylor</p> <p>C Torr</p> <p>M Swaine Williams</p> <p>I Jones</p> <p>A J Owen (gadawodd cyn diwedd y cyfarfod)</p> <p>C Furlong</p> <p>G Browne MBE</p> <p>W Rogerson MBE</p> <p>C Seeley</p> <p>Cynghorydd Sir G Jones</p> <p>Ymddiheuriadau</p> <p>A W Owen (Is Gadeirydd)</p> <p>Cynghorydd Sir R A Dew</p>	<p>Present</p> <p>Councillors</p> <p>N Tuck (Chairman)</p> <p>K Taylor</p> <p>C Torr</p> <p>M Swaine Williams</p> <p>I Jones</p> <p>A J Owen (Departed prior to end of meeting)</p> <p>C Furlong</p> <p>G Browne MBE</p> <p>W Rogerson MBE</p> <p>C Seeley</p> <p>County Councillor G Jones</p> <p>Apologies</p> <p>A W Owen (Vice Chairman)</p> <p>County Councillor R A Dew</p>

	Hefyd yn bresennol: G Owen Clerc G Owen, cyfieithydd	Also present: G Owen Clerk G Owen, translator
3	Datganiad o ddiddordeb Dim wedi ei derbyn	Declaration of interest. Nil received
4	Cofnodion Cyfarfod 17.11.21- cofnodion drafft ar gael ar Wefan y Cyngor Cymuned http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru Cytunnwyd i dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Nodwyd fod ffurflen Datgan Diddordeb wedi ei derbyn oddiwrth Cyng Torr. Cynnig/Eil MSW/WR	Minutes of meeting 17.11.21 - draft minutes on Community Council website http://www.valley-community-council.wales It was resolved to accept the minutes as a true and accurate record. It was noted that a Declaration of Interest form had been received from Coun. Torr. Prop/Sec MSW/WR
5.	Materion yn codi (17.11.21)	Matters arising (17.11.21.21)
5.1	Cais i'r Cyngor Cymuned gyflwyno cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ganiatad i osod diffibriliwr ar Lon Traeth/Mynedfa Glantraeth y Fali, gyda amod fod y Cyngor Cymuned yn gyfrifiol am yr uned. Daeth aelod o'r cyhoedd a oedd yn cynrychioli grŵp a oedd am godi diffibriliwr ar y safle uchod a daeth y Cynghorydd Richard Owain Jones i'r cyfarfod i drafod y cais uchod ac i ymateb i faterion a godwyd. Cadarnhawyd na fyddai angen cyflenwad trydan ar y safle arfaethedig ac y gallai'r cabinet gael ei inswleiddio'n ddigonol i ddiogelu'r offer ynddo. Cytunodd y Cynghorydd Furlong i fod y person cyfrifol ar ran Cyngor Cymuned y Fali a byddai'r grŵp ei hun yn nodi gwarcheidwaid y diffibriliwr ac yn cofrestru'r diffibriliwr ar y Gylchdaith. Penderfynwyd cyflwyno cais i Gyngor Sir Ynys Môn, ar ran y grŵp cymunedol, i ofyn am ganiatâd i godi'r diffibriliwr ar y safle y cytunwyd arno. Cynnig/Eil CF/IJ	Request for the Community Council to present an application to Isle of Anglesey County Council for permission to erect a defibrillator at Beach Road/Glantraeth Entrance, Valley, on the proviso that the Community Council become responsible for the unit. A member of the public representing a group who wished to erect a defibrillator at the above site and Councillor Richard Owain Jones attended the meeting to discuss the above request and to respond to matters raised. It was confirmed that an electricity supply would not be required at the proposed site and that the cabinet could be adequately insulated to protect the equipment therein. Councillor Furlong agreed to be the responsible person on behalf of Valley Community Council and the group itself would identify the guardians of the defibrillator and register the defibrillator on the Circuit. It was resolved to present an application to Isle of Anglesey County Council, on behalf of the community group, to seek permission to erect the defibrillator at the agreed site. Prop/Sec CF/IJ
5.2	Grwp gwaith pobl ifanc - Adroddiad y Cadeirydd Adroddodd y Cadeirydd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Grŵp, gan gynnwys polisi diogelu drafft a llythyrau a oedd wedi'u cymeradwyo. Cyfarfod pellach i'w drefnu mis Ionawr.	Young People Working group – Chairman's report The Chairman reported on the progress being made by the Group, including a draft safeguarding policy and letters which had been approved. A further meeting to be arranged in January.
5.3	Cyflwyniad a thrafodaethau gyda disgyblion Ysgol Gymuned y Fali (GB)	Presentation/discussions with pupils of Valley Community School – (GB)

	<p>Adroddodd y Cynghorydd Browne ar gyflwyniad a thrafodaeth gyda disgyblion Ysgol Gymunedol y Fali, ynghyd â chanlyniadau arolwg holiadur a gynhaliwyd, ac roedd copi ohono eisoes wedi'i ddsbarthu i'r aelodau.</p> <p>Penderfynwyd bod y gweithgor bach presennol (ynghyd ag unrhyw aelodau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymuno â'r grŵp) yn cyfarfod â disgyblion ac athrawon yr ysgol gyda'r bwriad o gefnogi'r ysgol i lunio cynllun gweithredu ac i edrych yn fanylach ar y materion a godwyd.</p> <p>Cynnig/Eil GB/NT</p>	<p>Councillor Browne reported on a presentation and a discussion with pupils of Valley Community School, together with the results of a questionnaire survey held, a copy of which had already been circulated to members.</p> <p>It was resolved that the existing small workgroup (together with any other members who may be interested in joining the group) meet up with the pupils and teachers of the school with a view to supporting the school to produce an action plan and to look in more detail at the matters raised.</p> <p>Prop/Sec GB/NT</p>
5.3	<p>Asesiad risg tan Parc Mwd – adroddiad yn dilyn cyfarfod grwp gwaith (CT)</p> <p>Cyflwynodd y Cynghorydd Torr y Cynllun Gweithredu a phenderfynwyd derbyn yr argymhellion ynddo.</p> <p>Cynnig/Eil IJ/KT</p>	<p>Parc Mwd Fire Risk Assessment – report following workgroup meeting (CT)</p> <p>Councillor Torr presented the Action Plan and it was resolved to accept the recommendations therein.</p> <p>Prop/Sec IJ/KT</p>
6	Materion Plwyfol	Parochial Matters
6.1	<p>Parc Mwd – Cais gan Grwp Cymunedol y Fali i blannu coed yn y Parc.</p> <p>Free Trees for Schools and Communities - Woodland Trust</p> <p>Penderfynwyd gohirio penderfyniad nes i Grŵp Cymunedol y Fali ddarparu rhagor o wybodaeth am nifer y coed a maint yr ardal sydd ei hangen.</p> <p>Cynnig/Eil IJ/KT</p>	<p>Parc Mwd – Request by Valley Community Group to plant trees in the park.</p> <p>Free Trees for Schools and Communities - Woodland Trust</p> <p>It was resolved to defer a decision until the Valley Community Group provided further information regarding the number of trees and the size of the area required.</p> <p>Prop/Sec IJ/KT</p>
6.2	<p>Cais gan Grwp Cymunedol y Fali am rhodd tuag at osod y goeden nadolig yn y pentref. (LGA1972 s144)</p> <p>Dosbarthwyd e-bost a rhoddwyd cymeradwyaeth yn bennaf i roi £100. Gwnaethpwyd y taliad cyn y cyfarfod oherwydd amserlen dynn.</p> <p>Cynnig/Eil KT/IJ</p>	<p>Request by Valley Community group for a donation towards the provision of a Christmas tree in the village. (LGA1972 s144)</p> <p>Email circulated and approval granted in principal to donate £100. Payment made prior to meeting due to tight timescale.</p> <p>Prop/Sec KT/IJ</p>
7	Deddf Gynllunio Gwlad a Thref	Town and County Planning Act
7.1	<p>Ceisiadau - Manylion ceisiadau ar gael ar Safle We Cyngor Sir ynys Mon – www.ynysmon.gov.uk</p>	<p>Applications – Details of applications available on Isle of Anglesey County Council Website – www.anglesey.gov.uk</p>
7.1.1	<p>Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2021/223</p> <p>Mae manylion / gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn yng nghyswllt y bwriad isod:</p> <p>Cais llawn ar gyfer ehangu y pit slyrri presennol yn / Full application for the extension of the existing slurry pit at Erw</p>	<p>Planning Consultation FPL/2021/223</p> <p>Additional / information / details have been received in respect of the following proposal:</p> <p>Cais llawn ar gyfer ehangu y pit slyrri presennol yn / Full application for the extension of the existing slurry pit at Erw Fawr, Llanyngenedl</p>

	Fawr, Llanyngenedl Dim sylwadau cyn belled a bod ymgynghoriad gyda chymdogion. Cynnig/Eil KT/IJ	No observations subject to neighbourhood consultation. Prop/Sec KT/IJ		
7.1.2	Ymgynghoriad Cynllunio LBC/2021/11 Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer FPL/2021/55:Cais llawn i godi ardaloedd balconi ac adfer llety byw ail lawr yn 7 Cleifiog Fawr, Gorad Road, Y Fali / Valley Dim sylwadau cyn belled a bod ymgynghoriad gyda chymdogion. Cynnig/Eil WR/MSW	Planning Consultation LBC/2021/11 Listed Building Consent for FPL/2021/55: Full application for erection of balcony areas and reinstatement of second floor living accommodation at 7 Cleifiog Fawr, Gorad Road, Y Fali / Valley No observations subject to neighbourhood consultation. Prop/Sec WR/MSW		
	Ymgynghoriad Cynllunio HHP/2021/359 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Dwyfor, Ffordd Gorad, Y Fali, Caergybi Sylwad fod yr addasiad yn uchel iawn mewn cymhariaeth a eiddo eraill yn yr ardal. Angen ymgynghoriad gyda chymdogion. Cynnig/Eil MSW/KT	Planning Consultation HHP/2021/359 Full application for alterations and extensions at Dwyfor, Gorad Road, Valley, Holyhead Observation that the alterations proposed were very tall in comparison to other properties in the area. Neighbourhood consultation required. Prop/Sec MSW/KT		
7.2	Penderfyniadau – Manylion penderfyniadau ar gael ar Safle We Cyngor Sir ynys Mon – www.ynysmon.gov.uk	Decisions – Details of decisions available on Isle of Anglesey County Council Website – www.anglesey.gov.uk		
8.0	Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn	Anglesey County Council Correspondence		
8.1	Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith – diweddariad https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cyngorhorwyr-Aelodau-Seneddol-ac-Aelodaur-Senedd/Blaen-Raglen-Waith-y-Pwyllgor-Gwaith.aspx Wedi ei gylchredeg	Executive's forward work programme - update https://www.anglesey.gov.uk/en/Council/Councillors-MS-MPs/The-Executives-Forward-Work-Programme.aspx Wedi ei gylchredeg		
9	Gohebiaeth Unllais Cymru	One Voice Wales Correspondence		
10	Materion Ariannol	Financial Matters		
10.1	Manylion Cyfrifon Balans 26.11.21	Details of Accounts Balances 26.11.21		
	Trysorydd	£16,294.68	Treasurer	£16,294.68
	Rheoli Busnes	£16,699.14	Business Manager	£16,699.14
	Ynys Wen	£20,073.16	Ynys Wen	£20,073.16
	Cyfalaf	£2,080.20	Capital	£2,080.20
	Cyfrif Trysorydd dim taliadau heb ei cyflwyno – arian ar gael £16294.68)	(Treasurer account no unrepresented payments – actual funds available £16294.68)		
	Derbynnwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor cymuned y Fali. Cynnig/Eil WR/MSW	Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Prop/Sec WR/MSW		
10.2	Taliadau i'w gwneud mis Rhagfyr(£)	Payments to be made December(£)		
	Trosglwyddiadau Banc	Bank Transfers		
	Clerc Cyflog Tachwedd	504.90	Clerk Salary November	504.90
	Anglesey Groundcare Services Torri Gwair	840.00	Anglesey Groundcare Services Grass Cutting	840.00
	HMRC PAYE Hyd - Rhag	378.60	HMRC PAYE Oct - Dec	378.60

	Unllais Cymru – hyfforddiant cyllid Modiwl 6 a 21 - clerch	60.00	One Voice Wales Finance Module 6 and 21 Clerk	60.00		
	Snowdonia Fire (cynnal larwm ymwithiol)	110.16	Snowdon Fire (intruder alarm service)	110.16		
	Anglesey Mole Catcher (Ynys Wen)	75.00	Anglesey Mole Catcher (Ynys Wen)	75.00		
	Cymru 1 Limited (Cynnal a chadw wefan)	528.00	Cymru 1 Limited (Maintenance of website)	528.00		
	Grwp Cymunedol y Fali (rhodd tuag at y goeden nadolig) (LGA1972 s144)	100.00	Valley Community Group (donation towards Christmas tree) (LGA1972 s144)	100.00		
	Derbynnwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor cymuned y Fali. Cynnig/Eil WR/MSW		Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Prop/Sec WR/MSW			
10.3	Taliadau Uniongyrchol		Direct Debit Payments			
	Cwmni Company	Mis Month	Cyflenwad Supply	Parc Mwd (£)	Cloc/Clock (£)	Ynys Wen (£)
	Scottish Power	Tach/Nov	Trydan Electric	46	14	0
	CSYM IOACC	Tach/Nov	Treth Cyngor Council Tax	45.00	0	0
	British Telecom	Tach/Nov	Ffon		0	0
	Dwr Cymru		Dwr Water			
	Veolia	Tach/Nov	Biniau/Bins Maes Chwarae/Play area	15.96		
	PWLB	Hydref/October	Benthyciad/Load			
10.4	Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2022-23 - Wedi ei gylchredeg a'l nodi.		Discretionary Expenditure Limit for 2022-23 – Circulated and noted.			
10.5	Cyflwyno cofnodion Pwyllgor Mynwent Ynys Wen (WR) Cyflwynodd Cyngorydd Rogerson Gofnodion Pwyllgor Ynys Wen a derbynniwyd fel cofnod cywir a chytunnwyd gyda'r argymhellion ynddo. Cynnig/Eil MSW/KT		Presentation of the Ynys Wen Committee minutes. (WR) Councillor Rogerson presented the Ynys Wen Committee minutes. It was resolved to agree to the recommendations made therein and to accept the minutes as a true and accurate record. Prop/Sec MSW/KT			
11	Llywodraeth Cymru		The Welsh Government			
11.1	Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 – Diweddariad Pwysig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd – wedi ei gylchredeg a'i nodi.		Technical Advice Note (TAN) 15 – Important Update from the Minister for Climate Change – updated – circulated and noted.			
12	Gohebiaeth Amrywiol		Miscellaneous Correspondence			
12.1	Unrhyw fusnes arall – mynegwyd pryder ynghylch y paneli rhydd yn fflapio yn y gwynt a'r paneli sydd wedi disgyn ar safle ardal ddatblygu arfaethedig Melin y Fali. Clerch i ysgrifennu at y Cyngor Sir.		Any other business – concern was raised regarding the loose panels flapping in the wind and the fallen panels at the site of the proposed Valley Mill development area. Clerk to write to the County Council.			
13	Dyddiad Cyfarfod Nesaf 19.01.22 7.00 Cyfarfod o bell		Date of Next Meeting 19.01.22 7.00 pm Remote Meeting			